# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 12 MEDI 2018

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| F. Akhtar | S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom |
| C.A. Campbell | J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry |
| C.A. Davies | T.A.J. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies |
| J.A. Davies | S.L. Davies | W.R.A. Davies | E. Dole |
| J.S. Edmunds | P.M. Edwards | D.C. Evans | H.A.L. Evans |
| L.D. Evans | R.E. Evans | W.T. Evans | A.L. Fox |
| S.J.G. Gilasbey | P. Hughes-Griffiths | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | A. James | J.D. James | R. James |
| D.M. Jenkins | J.P. Jenkins | G.H. John | B.W. Jones |
| C. Jones | D. Jones | G.R. Jones | H.I. Jones |
| T.J. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd |
| K. Madge | S. Matthews | A.S.J. McPherson | E. Morgan |
| A.G. Morgan | S. Najmi | D. Nicholas | B.D.J. Phillips |
| J.S. Phillips | D. Price | J.G. Prosser | B.A.L. Roberts |
| E.M.J.G. Schiavone | H.B. Shepardson | A.D.T. Speake | L.M. Stephens |
| D. Thomas | E.G. Thomas | G.B. Thomas | G. Thomas |
| J. Tremlett | A.Vaughan Owen | D.T. Williams | D.E. Williams |
| J.E. Williams | | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
A. Rees, Head of Learner Programmes
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
N Thomas, Senior Outdoor Recreation Manager
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - Neuadd y Sir - 10.00 am - 12.55 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan gynghorwyr G. Davies, K. Davies, D. Harries, C.J. Harries a B. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| T.A.J. Davies | 8.1 – Rhybudd o Gynnig a Gyflwynwyd gan y Cynghorydd T. Higgins | Mae ei frawd yng nghyfraith yn berchen ar gynelau cŵn trwyddedig. |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr am fod yn bresennol yn ystod rhan olaf y cyfarfod diwethaf pan roddwyd rhyddid y Sir i D.T.Davies Dryslwyn;

- Cydymdeimlodd y Cadeirydd â'r canlynol

  - Y Cynghorydd Andrew James a Sian ei wraig a'r teulu ar farwolaeth mam Sian;
  - Y Cynghorwyr Fozia Akhtar a Shahana Najmi ar farwolaeth eu tad;
  - Y Cynghorydd Alun Lenny a'i wraig Ann a'r teulu ar farwolaeth mam Ann;
  - Y Cynghorydd Jim Jones a'i frawd Graham, ar farwolaeth eu chwaer;

- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r canlynol:

  - Y Cynghorydd Karen Davies ar gael ei hethol yn Gynghorydd i gynrychioli Ward Saron;
  - perfformiodd Cerddorfa Jazz Ieuenctid y Sir a Chôr Merched Sir Gâr yn rowndiau terfynol cenedlaethol Cystadleuaeth Gŵyl Genedlaethol Music for Youth ym mis Gorffennaf yn Birmingham;
  - Y Bant Chwyth Sirol a fu'n perfformio yn y rownd derfynol genedlaethol;
  - Y Cynghorydd John James a gafodd ei benodi yn Gadeirydd Cynorthwyol PATROL (Rheoliadau Traffig a Pharcio y tu allan i Lundain) (Cymru) ym mis Gorffennaf;
  - Hefin a Gwennan Evans, Pwllagddu, Llanwrda, sydd yn ddiweddar wedi dod yn Bencampwyr Byd ym Mhencampwriaeth Codi Pwysau'r Byd a gynhaliwyd ym mis Awst ym Manceinion;
  - Yr enillwyr canlynol yng Ngwobrau Arwyr Lleol Radio Sir Gaerfyrddin:

    Gwobr Cymydog Da – Linda Owen;

    Athro/Athrawes y Flwyddyn – Karen Armstrong;

    Hyrwyddwr Cymunedol – Louise Robinson;

    Plentyn Dewr – Cameron Fulham;

    Gofalwr y Flwyddyn – Yvonne Jones;

    Mam y Flwyddyn – Pat Thomas;

    Tad y Flwyddyn – Steve Walker;

    Busnes Cymunedol y Flwyddyn - Caffi Cymunedol iSmooth

    Dewrder Eithriadol – Lacey Maria Rees;

    Codwr Arian y Flwyddyn – Ray Slade;

    Seren Chwaraeon y Flwyddyn – Ollie Griffith-Salter;

    Cyflawniad Eithriadol – D.T. Davies;

  - Geraint Thomas ar ennill y Tour de France;

- Tîm Pêl-droed Ysgolion Caerfyrddin dan 12 ar ei lwyddiant yng Nghynghrair Pencampwyr Iau'r Gogledd Orllewin 2018;

- Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd John James, Porth Tywyn, yn codi ariana ar gyfer Nyrsys Macmillan sy'n rhoi cefnogaeth mawr ei angen ar gleifion canser a'u teuluoedd. Byddai'r Cynghorydd James yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Brave the Shave' drwy eillio ei farf yng Nghlwb Rygbi Porth Tywyn am 9pm, ddydd Sadwrn, 29 Medi;

- Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau a'r digwyddiadau yr oedd wedi mynd iddynt wrth gynrychioli'r Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys:

  - Sioeau Amaethyddol – Llangadog, Llanarthne, Llandyfaelog – mynegodd y Cadeirydd hefyd ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Gareth Thomas ar ei lwyddiant yn Sioe Frenhinol Cymru;
  - Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli;
  - Beicio – Cylchffordd Gaeedig Pen-bre
  - Taith Prydain – diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n ymwneud â'r fenter wych hon;
- Tynnwyd sylw'r Cyngor ar lwyddiant yr Apêl Teganau Nadolig yn y blynyddoedd blaenorol, a fu'n rhoi help i bobl a oedd yn wynebu amserau ariannol anodd yn enwedig dros gyfnod y Nadolig. Yn debyg i'r hyn a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i Aelodau'r Cyngor roi cyfraniad at yr Apêl. Gofynnwyd i Aelodau'r Cyngor roi cyfraniad yn unrhyw un o'r mannau casglu a geir ledled y Sir gan gynnwys Neuadd y Sir, Tŷ Elwyn, Llanelli a Neuadd y Dref, Rhydaman.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 11EG GORFFENNAF 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir, yn amodol ar gofnod 3 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd, y dylid nodi bod Mrs Pat Thomas a Mrs Beryl Owens eisoes wedi derbyn Gwobr Hyrwyddwr Cymunedol gan Jo Cox Cymru.**

## 5. CYFLWYNIAD - GWERTHUSIAD AR OL Y DIGWYDDIAD - TAITH PRYDAIN 2018

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad, gan gynnwys deunydd fideo, ar yr adborth a gafwyd yn dilyn ras feiciau Taith Prydain a gynhaliwyd yn ddiweddar a ddechreuodd ym Mharc Gwledig Pen-bre. Amcangyfrifwyd bod yr hyrwyddo a'r sylw i'r digwyddiad, a fyddai'n helpu i ddenu rhagor o ymwelwyr i'r Sir, fwy na thebyg yn cyfateb i tua £100k petai'r Awdurdod wedi talu am y math hyn i hysbysebu. O ran budd economaidd y digwyddiad, amcangyfrifwyd bod yr incwm ychwanegol ar gyfer busnesau yn y Sir tua £800k yn ystod penwythnos y digwyddiad. Talwyd teyrnged benodol i staff yn yr isadrannau priffyrdd a chwaraeon am eu gwaith yn arwain at y digwyddiad ac yn ystod y digwyddiad ei hun. Cyflwynodd y Prif Weithredwr grys Taith Prydain wedi'i fframio i'r Cadeirydd a oedd wedi'i ddylunio gan Zakia Bella Johnson, disgybl yn Ysgol Saron, ac enillydd y gystadleuaeth i ysgolion a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Cyflwynwyd hefyd y crys i bob un o feicwyr Cymru a fu'n cymryd rhan yn y ras.

## 6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 7. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

### 7.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ANDRE MCPHERSON I'R CYNGHORYDD LINDA EVANS, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

"A gaf i ofyn pa gamau y mae'r Awdurdod hwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â digartrefedd yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys unrhyw gamau i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Linda Evans, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai:-**

"Diolch yn lle cyntaf i'r Cynghorydd McPherson am y cwestiwn pwysig hwn  Fel Aelodau rydych wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â Swyddogion o'r Adran Dai a minnau'r prynhawn hwn mewn seminar er mwyn cael trafodaeth ar ddatblygu cynllun digartrefedd newydd.  Rwy'n gobeithio y byddwch chi gyd yno.
Yr wythnos nesaf ar Agenda'r Pwyllgor Craffu - Cymunedol mae cyfle i Aelodau drafod yn fanwl yr hyn rydym yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael ag eiddo gwag. Felly gyda'ch caniatâd chi Gadeirydd, hoffwn roi golwg gyffredinol i chi mewn ymateb i'r cwestiwn.
Yn gyntaf mae ein dull digartrefedd yn syml. Ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae hyn yn golygu sicrhau trosglwyddo'r cymorth a'r cyngor sy'n berthnasol i bawb.  Bod gennym opsiynau a chamau addas i'w cynnig a rhaid inni gofio wrth gwrs fod sefyllfa pawb yn wahanol.  Pan fydd rhywun yn ddigartref mae'n rhaid i ni gynnig iddynt y llety gorau posibl a gwasanaeth a fydd o gymorth ac o fudd iddynt. Credaf y gallwn ni gyd dderbyn bod mewn sefyllfa fel hon o bosibl yn un o'r pethau mwyaf anodd y gall unrhyw un ei wynebu.
Er mwyn egluro mewn termau mwy ymarferol, yn ystod 2017/18, roedd 1700 o ddeiliaid tai wedi cysylltu â ni yn yr adran Dai yn gofyn am gymorth gyda'u sefyllfa. Cafodd dros 90% ohonynt gymorth i aros lle yr oeddent neu eu symud i leoliad mwy addas.  Mae'n bosibl cyflawni hyn oherwydd rydym wedi rhoi llawer o ymdrech i ailstrwythuro ein cefnogaeth, gan ddarparu opsiynau ac atal digartrefedd.  Mae hyn yn golygu y gall ein staff ymyrryd a rhoi cymorth cyn gynted â phosibl er mwyn atal y sefyllfaoedd hyn rhag gwaethygu.  Mae gennym un man cyswllt ar gyfer y digartref sy'n cynnig cymorth arbenigol ac mae hyn drwy weithio'n agos iawn â'n partneriaid hanfodol megis Shelter a'r Wallich, mae gan y partneriaid hyn swyddogion sy'n gweithio ochr yn ochr â ni yn yr adran Dai yn ein swyddfeydd yn Llanelli.  Nod hyn yw sicrhau bod y wybodaeth a'r cymorth cywir yn cael eu rhannu cyn gynted â phosibl â'r partneriaid perthnasol.  Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu cydweithrediad a'u cyfraniad.  Byddwn wrth gwrs yn trafod hyn ymhellach y prynhawn yma.
Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu ein stoc tai fforddiadwy gyda thros 500 o dai fforddiadwy ychwanegol.  O fewn dwy flynedd rydym eisoes hanner ffordd tuag at ein targed o 1000 o dai ychwanegol.  Rydym yn llwyddo oherwydd rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gwneud pob dim  o fewn ein gallu i roi cyfle i bobl gael cartref fforddiadwy.  Oherwydd ein bod yn gwbl ymwybodol bod angen mwy o gartrefi fforddiadwy ac oherwydd ein bod yn

benderfynol o weithio ar hyn a gwneud rhywbeth yn ei gylch. Rydym wedi gwneud, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn defnyddio mwy nag un dull. Rydym wedi prynu tai yn y sector preifat, ac mae gennym raglen helaeth o ran datblygu tai cymdeithasol ac mae ein cynllun gosod syml wedi cael ei ddatblygu ac rydym yn gweithio ochr yn ochr â pherchnogion tai er mwyn ailddechrau defnyddio eiddo gwag.
Rydym wedi cytuno i wneud hyn yn dilyn adolygiad gorchwyl a gorffen, lle'r oedd canran helaeth o'r bobl a holwyd, tua 80% ohonynt, am ein gweld yn ail-ddefnyddio eiddo gwag unwaith yn rhagor, a dyna'n union yr hyn rydym yn ei wneud. Mae gennym tua 2500-2600 o dai gwag o fewn y Sir ar hyn o bryd sydd yn ganran eithaf bach o ystyried bod gennym dros 78,000 o dai preifat yn y Sir. Er mwyn ymdrin ag eiddo gwag, mae gennym gynllun gweithredu sydd wedi llwyddo i ddod â bron i 200 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn 2017/18. Mae hyn yn cymharu â dim ond 60 eiddo gwag a ddaeth yn ôl i ddefnydd yn 2010 o dan y weinyddiaeth Lafur. Mae gennym broses glir er mwyn gweithio ochr yn ochr â pherchnogion tai megis cynnig cyngor a benthyciadau ariannol, ac fel cam olaf byddwn yn cymryd camau gorfodi os oes angen.

Cofiwch nid wyf wedi cynnwys ein rhaglen cartrefi newydd yma. Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn fuan iawn. Ein lleoliadau cyntaf fydd Garreglwyd ym Mhen-bre a Safle Dylan. Hefyd nid wyf wedi eto wedi crybwyll y cwmni tai Cartrefi Croeso, ond gadawaf hynny am y tro.
Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Swyddogion sy'n gweithio mewn gwahanol adrannau yn y Sir. Mae llwyddiant ein cynllun tai fforddiadwy yn dibynnu ar weledigaeth ac ymrwymiad ac rwyf am ddiolch o waelod calon i chi am eich cydweithrediad. Mae pob cartref ychwanegol yn golygu cartref sefydlog ar gyfer teulu neu unigolyn rhywle y gallant ei alw yn gartref. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau ein fforwm digartrefedd am eu hymrwymiad. Rydym yn cyfarfod rheolaidd â phartneriaid o'r Trydydd Sector er mwyn datblygu ein gwasanaeth ar gyfer y digartref ac mae hon yn rôl hanfodol a chymaint i gyfrannu at ein cynllun newydd. Datblygwyd grwpiau eraill hefyd megis y gwaith a wneir yn Llanelli yn Y Lle ac yn y capeli lleol. Mae'r rhain i gyd yn gwneud gwaith cadarnhaol iawn ac yn gwneud gwahaniaeth. Mae llawer o bobl sy'n gysylltiedig â'r rhain yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac mae rhai ohonoch chi yma heddiw ac mae fy niolch yn fawr iawn i chi hefyd. Ond ni fyddwn yn eistedd yn ôl a meddwl ein bod yn gwneud yn iawn – nid yw'n ddigon i fi na'r staff yn yr adran dai, a bydd ein cynllun digartrefedd newydd yn canolbwyntio ar hyn. Rydym am gydnabod y potensial am argyfwng yn gynt drwy ddarparu mwy o gymorth cymunedol mewn rhai ardaloedd cymunedol penodol, ailfodelu llety dros dro ar gyfer pobl ifanc, gan roi mwy o ddewisiadau tai i bobl ifanc, a pharhau i weithio gyda'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod cefnogaeth effeithiol ar gael. Mae adroddiad diweddar gan Shelter yn sôn am y cynnydd mewn achosion o gysgu ar y stryd er nad yw'n broblem fawr yma fel ardaloedd eraill. Rydym am barhau i wneud yn siŵr, os bydd rhywun yn cysgu ar y stryd, ein bod yn ymwybodol o hyn bod ein gwaith allgymorth yn gallu ymateb yn gadarnhaol i hyn. Yn bwysicach na dim, rydym am weithio gyda'n gilydd er mwyn datrys problemau digartrefedd a rhoi cartrefi iddynt cyn gynted â phosibl ac rwy'n gobeithio eich bod chi fel Aelodau yn cytuno â hyn. Rwy'n edrych ymlaen at y drafodaeth y prynhawn yma – dewch – bydd eich sylwadau ac awgrymiadau yn bwysig iawn. Diolch ichi."

**Gofynnodd y Cynghorydd McPherson y cwestiwn atodol canlynol:-**

“Sut yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â gorddibyniaeth ar dai amlfeddiannaeth i bobl sengl, sef y gyfradd uchaf o bobl sy'n ddigartref, sut yr ydym yn bwriadu goresgyn hyn?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Linda Evans, Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai:-**

“Diolch yn fawr i chi am y cwestiwn. Rydych wedi codi pwynt pwysig iawn. Mae pobl yn byw mewn tai amlfeddiannaeth ac yn aml iawn maent yn bobl ifanc a phobl sengl. Yn anffodus, mae'n rhaid i ni eu defnyddio gan ein bod yn defnyddio'r holl dai sydd gennym, ond mae'n rhaid inni hefyd ddefnyddio tai amlfeddiannaeth. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar ddatblygu gwahanol opsiynau ar gyfer y bobl ifanc hyn, ond gallaf ddweud hefyd, ac mae'n bwysig imi sôn am hyn, mae'r tai amlfeddiannaeth yr ydym yn eu defnyddio yn cael eu harolygu gennym, nid yn wythnosol ond yn rheolaidd. Mae hynny'n bwynt pwysig iawn, nid ydym yn gosod pobl mewn tai amlfeddiannaeth a'u gadael yno, mae'n fesur dros dro ac rwy'n gobeithio mai cam dros dro byr iawn yw hyn, ond yn anffodus mae'n rhaid i ni eu defnyddio ar adegau. Wedi dweud hynny, mae rhai pobl yn mynd i lety dros dro mewn tŷ amlfeddiannaeth ac maent yn hapus i aros yno, nid ydynt am symud ymlaen. Mae gennym gartrefi, llety dros dro mewn argyfwng, ac mae'n rhaid i ni eu defnyddio ar adegau. Ond byddwn yn edrych ar adeiladu cartrefi newydd, mae'r holl gartrefi ychwanegol yr ydym yn mynd eu hadeiladu, yr holl dai yr ydym yn eu prynu, mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu cymryd enw arall oddi ar ein rhestr aros a darparu mwy o lety ar gyfer pobl. Rwyf i, yn fwy nag unrhyw un ohonoch, am sicrhau bod gan holl bobl Sir Gaerfyrddin do uwch eu pen ac mae hynny'n her fawr iawn, ac rwy'n derbyn hynny, ond drwy weithio gyda'n gilydd byddwn yn cyrraedd y nod, ond mae'n rhaid inni gofio hefyd y ceir un neu ddau ar y strydoedd, mae yna un ar hyn o bryd sydd wedi bod yn teithio o amgylch Llanelli, nid yw rhai ohonynt am gael cartref parhaol. Efallai ei bod yn anodd o bosibl i ni gredu hynny ond dyna yw dewis rhai pobl ac yn y sefyllfaoedd hynny, rhaid inni dderbyn nad oes llawer y gallwn ei wneud ond cyhyd a'u bod yn gwybod ble mae help ar gael iddynt a'u bod yn dod atom pan fo angen iddynt. Diolch i chi unwaith eto am y cwestiwn.”

## 7.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

Nodwyd bod y Cynghorydd Bill Thomas a'r Cynghorydd Glynog Davies yn absennol o'r cyfarfod felly byddai'r Cynghorydd Thomas yn derbyn ymateb ysgrifenedig i'w gwestiwn gan y Cynghorydd Davies.

## 7.3. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ANN DAVIES I'R CYNGHORYDD PETER HUGHES GRIFFITHS, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

“Roedd twristiaeth werth £434m i economi Sir Gaerfyrddin yn 2017 yn ôl astudiaeth a baratowyd ar gyfer y Cyngor Sir, cynnydd o 7.8% ar y flwyddyn flaenorol. Yn ôl yr ymchwil cafwyd cyfanswm o 6.39 miliwn o ddiwrnodau ymweld sef cynnydd o 7.2% ers 2016. Roedd twristiaeth yn 2017 wedi cefnogi 6,343 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y sir, sef cynnydd o 5.3% ers 2016. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae gwerth twristiaeth i'r sir wedi cynyddu £150 miliwn. A all yr

Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ddweud wrthyf sut y cafwyd y ffigurau gwych hyn a beth yw ei ddisgwyliadau ar gyfer 2018?"

**Dywedodd y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth:-**

"Mae'r cwestiwn ei hun yn dangos y llwyddiant yn y maes penodol hwn a'r cynnydd a welwyd yn y ffigurau yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rwy'n credu y gallwn dreulio drwy'r bore mewn gwirionedd yn amlinellu'r rheswm dros y llwyddiant sylweddol hwn. Gallaf ddweud yn gyntaf oll ein bod mor hapus gyda'r llwyddiant hwn, rwy'n eistedd wrth ymyl y Cyng. David Jenkins [yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau] ac o safbwynt economaidd gellir canmol hyn a'i weld yn amlwg yn y ffigurau a gafwyd yn y cwestiwn. Felly rydym yn meddwl am y lleoliadau a Sir Gaerfyrddin, Sir sydd yn llawn prydferthwch, sir naturiol hardd, ac yn cynnwys profiadau o fod ar lan y môr neu deithio i'r Bannau. Ac wedyn mae gennym hefyd y trefi a'r pentrefi o bob maint ledled y Sir felly mae gennym botensial gwych yn ein llefydd penodol yn Sir Gaerfyrddin. Ac yn gysylltiedig â hyn, yn yr ardaloedd hynny, mae gennym ddiwylliant bywiog iawn fel rydym wedi clywed y bore yma ac elfen Gymreig iawn iddi a'r iaith y mae ymwelwyr wrth eu bodd â hi. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi datblygu lleoliadau a llety i bobl sy'n eu denu. Mae gennym ddigwyddiadau sy'n eu denu ar draws y Sir, mae gennym amrywiaeth o leoliadau i bobl fwyta, os ydych am gael picnic neu os ydych am bryd o fwyd pum cwrs, mae popeth yma. Dyna yw'r datblygiadau sydd wedi digwydd a gellir gweld hynny yn glir erbyn hyn ar gyfer y bobl hynny sy'n barod i wario. Ond beth am y bobl? Ac mae'n rhaid i mi ddweud fod pobl dalentog iawn yn y maes hwn ac mae hynny wedi datblygu hefyd yn ogystal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae pobl wedi addasu ar gyfer twristiaeth yn enwedig yng nghefn gwlad a'r sector amaethyddol i gynnig llety a gwasanaethau. Mae'r agwedd hon heb amheuaeth wedi cyfrannu'n economaidd yn ogystal â'r entrepreneuriaid sydd gennym ar draws y sir yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ac yna mae gennym yr elfen hyrwyddo sef ein bod yn hyrwyddo Sir Gaerfyrddin. Rydym heb amheuaeth wedi dal i fyny a siroedd eraill megis Sir Benfro er enghraifft. Rydym wedi canolbwyntio ar farchnata Sir Gaerfyrddin, ac rydym wedi gweld heddiw, y math o bethau sy'n talu ar eu canfed i ni yma yn Sir Gaerfyrddin. Yn Lloegr, Ewrop a De Cymru, y boblogaeth enfawr sydd yn Ne Cymru, ac ar draws Gogledd Cymru, rydym yn denu'r rhain i Sir Gaerfyrddin yn ogystal â phobl eraill o amgylch y byd. Ac wrth gwrs rydym yn gweithio ochr yn ochr â Chroeso Cymru ac yn ddiweddar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llwyddo os gallaf ddweud o blith y rhestr wyf wedi'i gweld o bobl y bobl sydd wedi dod i mewn i Sir Gaerfyrddin ac sydd wedi ysgrifennu'n helaeth yn ein papurau newydd, yn ein cylchgronau, a hyd yn oed yn y Financial Times, mae hwn yn faes yr ydym wedi hyrwyddo ac yn ateb i'r hyn oeddech yn gofyn am sut yr ydym wedi cael ffigurau mor rhagorol. Gallaf ganmol yn ogystal, fe welsoch yn gynharach Cymdeithas Hyrwyddo Sir Gaerfyrddin a thwristiaeth hefyd, ond fel llywodraeth leol yma yn Sir Gaerfyrddin rydym wedi gwella'n sylweddol amrywiaeth o bethau ac wedi creu amrywiaeth o adnoddau. Gallwn roi rhestr helaeth i chi o'r mathau o leoliadau yr ydym wedi'u paratoi ar gyfer ymwelwyr a'r pwyslais wrth gwrs ar lwybrau cerdded a beicio. Ond mae'n llawer mwy na hynny, mae gennym gyfleusterau gwell fel Cyngor. Ond un gair am ddyfodol twristiaeth, mae'n ddiwydiant modern, a byddwn yn parhau i ddatblygu a chynllunio oherwydd ei werth economaidd i ni yma yn Sir Gaerfyrddin. Ac un ffactor pwysig pan fyddwn yn meddwl am dwristiaeth, rydym yn meddwl amdano o bosibl yn ystod yr haf, a hon yw'r elfen arall yr ydym yn ei datblygu, bod

twristiaeth a Sir Gaerfyrddin yn apelio i bobl drwy gydol y flwyddyn i ddod yma ac mae cynlluniau amrywiol ar y gweill ar hyn o bryd, nid oes rhaid i mi eu rhestru heddiw, ond dyna'r hyn sydd yn digwydd ar gyfer datblygu twristiaeth yma yn y sir. Dywedais y gair 'economaidd' droeon, ond hoffwn ddiolch am y cydweithio rhwng yr adrannau. Rwyf am sôn am y tîm datblygu economaidd, mae'r tîm yn chwarae rhan bwysig yn yr elfen ddatblygu a gwn fod y Cynghorydd Cefin Campbell, yn y maes o adfywio ardaloedd gwledig, yn mynd i ddatblygu syniadau mewn perthynas â thwristiaeth o fewn y maes hwn. Ac ar ôl dweud hynny i gyd a sôn am y paratoadau sydd gennym, wrth gwrs yn dibynnu ar y tywydd, yn ystod yr haf beth bynnag, ond pan fydd gennym haf cystal ag oedd gennym eleni bydd hynny'n gam anferth ymlaen ar gyfer twristiaeth. Gaf i ddiolch i bawb am hyrwyddo Sir Gaerfyrddin, mae llawer o gynghorwyr yma heddiw sy'n gwybod am ddatblygiadau yn eu hardaloedd eu hunain. Maddeuwch imi, rwyf am gyfeirio, er enghraifft, at y marina ym Mhorth Tywyn. Mae'r ddau gynghorydd lleol wedi derbyn adroddiad gan y cwmni sy'n datblygu marina i ni, ac mae’r cynnydd yn yr haf ar y ffigurau a'r niferoedd sy'n ymweld. Nid yw wedi'i gwblhau eto, rydym hanner ffordd drwy'r datblygiad a gwella o'i hamgylch a dyna'r math o beth sydd gennym fewnbwn yn gylch fel Cyngor er mwyn datblygu. Felly diolch i chi i gyd ac rwyf am bwysleisio'r cynghorwyr lleol oherwydd maent yn helpu yn eu hardaloedd gyda mentrau amrywiol ac am eu cymorth, a'r staff hefyd a llongyfarchiadau iddynt. Mae twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn llwyddiant fel y dengys y ffigurau hynny ac wrth gwrs yr her yw ein bod yn parhau ac yn cynyddu'r rhain er mwyn i Sir Gaerfyrddin lwyddo'n economaidd. Diolch ichi.

## 8. YSTRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

### 8.1. CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD TINA HIGGINS

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Tina Higgins:-

“Mae’r Cyngor hwn yn ychwanegu ei gefnogaeth at Ymgyrch Genedlaethol Deddf Lucy i wahardd ffermio cŵn bach gan drydydd parti. Bydd y Cyngor hwn yn ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau cefnogol a bydd yn mynd ati’n rhagweithiol i dynnu sylw ein preswylwyr ar draws y Sir at yr ymgyrch. Mae’r Cyngor hwn yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan gefnogi’r galw am gamau gweithredu brys ynghylch y mater hwn.”

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o'i blaid ac aethant ymlaen i amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gefnogi'r Rhybudd o Gynnig.**

### 8.2. CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD EMLYN SCHIAVONE

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Emlyn Schiavone:-

“Hoffwn gynnig bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymrwymo i gael ei gydnabod yn ffurfiol fel Sir Garedig. Fel rhan o'r agenda Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ar y cyd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ni fu erioed amser gwell i hyrwyddo cydnerthedd a charedigrwydd yn ein cymunedau. Mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol fod bod yn garedig yn llesol i'r sawl sy'n garedig, yn ogystal â'r rheiny y maent yn garedig iddynt. Mae'r ysgogiad i hyrwyddo cysylltwyr caredigrwydd yn ein cymunedau yn hynod berthnasol o ran mynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigrwydd; dau beth y derbynnir bellach eu bod yn cyfrannu at iechyd a llesiant gwael.
Mae menter Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig yn creu ac yn cryfhau cysylltiadau yn y gymuned. Gellir gwella ar hyn ymhellach drwy ddatblygu sesiynau ymwybyddiaeth o Garedigrwydd a hybu Hyrwyddwyr Sir Gaerfyrddin Garedig.
Mae cyflwyno rhagnodwyr cymdeithasol ynghlwm wrth feddygfeydd meddygon teulu yn enghraifft o fynd i'r afael ag anghenion. Yn yr un modd, mae Sefydliad Jo Cox yn cyllido swydd yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro i leihau arwahanrwydd ac unigrwydd drwy wneud pethau caredig yn y gymuned. Gall prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau greu cysylltiadau cadarnhaol rhwng aelodau hŷn ac ifanc ein cymunedau
.
Gofynnaf gyda pharch i'r Cyngor gefnogi'r cynnig hwn.”

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o'i blaid ac aethant ymlaen i amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gefnogi'r Rhybudd o Gynnig.**

## 8.3. CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd John James:-

“Bod y Cyngor hwn yn mabwysiadu polisi sy’n cyflwyno arwyddion yn yr holl fannau wrth ymyl y ffordd a gydnabyddir ar gyfer cadwraeth gan yr Awdurdod Lleol hwn a, lle bynnag y bo’n bosibl, hysbysfyrddau sy’n rhoi gwybodaeth am yr holl fanteision i’r ardal a neilltuir ar gyfer cadwraeth. Hefyd, bod y Cyngor yn mynd at Gynghorau Tref a Chymuned a’u hannog i wneud yr un peth."

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o'i blaid ac aethant ymlaen i amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau, yn enwedig o ran y goblygiadau ariannol, ac yn dilyn hyn cytunodd y Cynghorydd James, gyda chefnogaeth ei eilydd, i dynnu'r Rhybudd yn ôl a chyfeirio'r mater at Grŵp Gorchwyl a Gorffen presennol y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd o ran adolygu'r ddarpariaeth cynnal a chadw priffyrdd perthi ac ymylon. Yn dilyn hyn byddai argymhellion y Grŵp yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol.

**9. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL DRAFFT – CANOL TREF LLANELLI**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2018 (gweler Cofnod 7) wedi ystyried adroddiad ynghylch y cynigion i gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli. Pe byddai'n cael ei fabwysiadu byddai'r Gorchymyn yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd o fewn ardal ofodol benodol yng nghanol y dref i symud ymlaen heb fod yr angen am ganiatâd cynllunio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"9.1 Derbyn y sylwadau sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft ar gyfer Canol Tref Llanelli;**
**9.2 Cymeradwyo'r argymhellion y manylwyd arnynt yn yr adroddiad;**
**9.3 Cymeradwyo cyflwyno'r Gorchymyn Datblygu Lleol (sy'n cynnwys argymhellion yr adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth) i Lywodraeth Cymru gael cytuno arno;**
**9.4 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Gorchymyn Datblygu Lleol;**
**9.5 Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion ddiweddaru'r sylfaen dystiolaeth a gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Gorchymyn Datblygu Lleol, a sicrhau bod unrhyw faterion ychwanegol o ran cydymffurfiaeth gyfreithiol hefyd yn cael eu hintegreiddio."**

**10. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**10.1. 22 MEHEFIN 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

**10.2. 2 GORFFENNAF 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

**10.3. 30 GORFFENNAF 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

**11. YSTYRIED ARGYMHELLAD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:-**

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin, 2018 (cofnod 7), wedi ystyried y mater o symud tuag at system gyfathrebu ddi-bapur gyda'r holl gynghorwyr yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 14 Ionawr 2015. Yn dilyn hyn:

"PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR fod yr Awdurdod yn dechrau mabwysiadu system gyfathrebu ddi-bapur gyda'r holl Gynghorwyr, a fydd ar waith o 1 Ionawr 2019, a bod rhaglen hyfforddiant briodol yn cael ei threfnu cyn y dyddiad hwn**."**

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth y Cyngor, yn dilyn ei gyfarfod ym mis Mehefin bod nifer o aelodau wedi mynegi pryderon am yr amserlen fer a gynigwyd a'r problemau sydd angen mynd i'r afael â hwy megis band eang gwael mewn rhannau eraill o'r Sir a'r angen am hyfforddiant pellach i rai aelodau. Cafodd rhai o'r pryderon hyn eu hailadrodd gan yr Aelodau ac felly cafodd ei gynnig, a'i eilio, bod y dyddiad a nodir yn yr argymhelliad uchod, o ran dechrau gweithio'n ddi-bapur, yn newid i 2 Medi 2019.

**PENDERFYNWYD bod yr Awdurdod yn dechrau mabwysiadu system gyfathrebu ddi-bapur gyda'r holl Gynghorwyr, a fydd ar waith o 2 Medi 2019, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a bod rhaglen hyfforddiant briodol yn cael ei threfnu cyn y dyddiad hwn.**

## 12. CYD-BWYLLGOR DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE - AELODAETH

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid penodi'r aelodau canlynol i wasanaethu ar y Pwyllgor Craffu ar y cyd Dinas-ranbarth Bae Abertawe:**

**Grŵp Llafur – Cynghorydd Rob James**
**Grŵp Plaid Cymru – Cynghorydd Darren Price**
**Grŵp Annibynnol – Cynghorydd Giles Morgan**

## 13. ETHOL IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn dilyn swydd wag canol tymor ac yn unol â Rheol 4 (2) o Weithdrefn y Cyngor, benodi'r Cynghorydd Aled Vaughan-Owen yn is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd.**

## 14. AELODAETH PWYLLGORAU

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2)(n) ac ar ôl derbyn enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol perthnasol:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**14.1 nodi y bydd y Cynghorydd Karen Davies yn ymgymryd â swydd wag grŵp Plaid Cymru ar y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd;**

**14.2 nodi y bydd y Cynghorydd Karen Davies yn ymgymryd â swydd wag grŵp Plaid Cymru ar y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd;**

**14.3 nodi y bydd y Cynghorydd Susan Phillips yn ymgymryd â swydd wag grŵp Plaid Cymru ar y Pwyllgor Trwyddedu;**

**14.4 nodi y bydd y Cynghorydd John Prosser yn cymryd lle'r Cynghorydd Suzy Curry fel un o gynrychiolwyr y grŵp Llafur ar y Pwyllgor Cynllunio;**

**14.5 nodi y bydd y Cynghorydd Andre McPherson yn lle'r Cynghorydd John Prosser fel un o gynrychiolwyr y Grŵp Llafur ar y Pwyllgor Trwyddedu.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**